**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/EM/1950/21

Pob Aelod o'r Senedd

30 Gorffennaf 2021

Annwyl gydweithwyr

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu o wall ffeithiol mewn Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddais ar 21 Gorffennaf ynghylch Adroddiad rhif 34 Corff Adolygu Cyflogau'r GIG ac i ymddiheuro'n ddiffuant am unrhyw ddryswch a achoswyd gan hyn ymysg eich etholwyr.

Yn y Datganiad Ysgrifenedig, ysgrifennais:

*O ran ein staff sydd ar y tâl isaf, mae hyn yn golygu ein bod wedi cynnig swm sy'n uwch na'r argymhelliad ar gyfer y cyflog byw o £9.50 yr awr yr oeddem wedi ei weithredu o fis Ebrill 2021, gyda chyflog cychwynnol o £19,918 y flwyddyn (£10.18 yr awr)*

Mewn gwirionedd, y cyflog cychwynnol i'r rhai sy'n ymuno â'r GIG yng Nghymru ar ôl i'r dyfarniad cyflog hwn gael ei weithredu yw £18,576 (£9.50 yr awr). Mae ein staff sydd ar y tâl isaf eisoes wedi bod yn ennill y ffigur hwn ers mis Ebrill 2021 pan gafodd y gyfradd a argymhellwyd gan y Living Wage Foundation ei gweithredu yn y GIG yng Nghymru gydag ychwanegiad, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, at y raddfa gyflog Agenda ar gyfer Newid a gytunwyd yn genedlaethol. Atodaf fersiwn ddiwygiedig o'r Datganiad Ysgrifenedig gyda'r ffigurau wedi'u cywiro.

Rwyf wedi ymrwymo o hyd i drechu tlodi yng Nghymru a sicrhau bod cyflog y rhai ar y bandiau isaf yn parhau i gyd-fynd ag argymhelliad annibynnol y Living Wage Foundation, neu'n uwch. Edrychaf ymlaen at gael argymhelliad diwygiedig y Living Wage Foundation yn yr hydref a byddaf yn parhau i adolygu'r rhain yn flynyddol er mwyn diogelu ffyniant ein gweithlu ymroddedig.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.